# Adolygiad
# DIABETES CYMRU GYFAN

1. Argymhelliad 1: Gweithredu ymgyrch ymwybyddiaeth sy'n amlygu'r risg gynyddol o ddiabetes sy'n gysylltiedig ag ethnigrwydd.

2. Argymhelliad 2: Targedu rhaglenni'n benodol i gefnogi cymunedau llai cefnog sy'n wynebu ansicrwydd bwyd i gefnogi diet iachach a lleihau'r risg i ddiabetes math 2.

3. Argymhelliad 3: Gwneud Archwiliad Craidd yr Archwiliad Diabetes Cenedlaethol yn hygyrch, ei ddiweddaru'n chwarterol a'i gyflwyno fel dangosfwrdd ar gyfer cymhariaeth leol, er mwyn hwyluso'r broses o nodi effeithiolrwydd canlyniadau Gofal Sylfaenol fel sydd ar gael yn Lloegr.



4. Argymhelliad 4: Gwella cydweithrediad rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd i reoli diabetes yn effeithiol yn ystod y cyfnod aros cynyddol am lawdriniaeth.

5. Argymhelliad 5: Cynyddu mynediad at ddata NDA i lefel leol er mwyn helpu I ysgogi gwelliant drwy amlygu meysydd o arfer da a pherfformiad yr 8 proses gofal yng Nghymru.



6. Argymhelliad 6: Gweithredu strategaethau i leihau risg marwolaeth pobl sy'n byw gyda diabetes trwy wella rheolaeth DKA, hyrwyddo gwell ffyrdd o reoli lefelau HbA1c, a mynd i'r afael â risgiau cardiofasgwlaidd megis angina a strôc.

7. Argymhelliad 7: Canolbwyntio ymdrechion ar leihau cyfraddau gordewdra, monitor tueddiadau, a gweithredu ymyriadau wedi'u targedu I wella iechyd a lles plant.

8. Argymhelliad 8: Sicrhau cefnogaeth ar gyfer twf gweithlu arbenigol diabetes wrth ddrafftio cynllun gweithlu'r GIG i Gymru, gan gynnwys hyrwyddo arfer clinigol a rolau arwain.



9. Argymhelliad 9: Adolygu'r angen am Gynllun Gweithredu Diabetes i gyflawni nodau ac amcanion y Datganiad Ansawdd ar gyfer Gofal Diabetes yng Nghymru.

10. Argymhelliad 10: Sicrhau bod y trawsnewidiad presennol o wasanaethau sgrinio llygaid diabetig yn effeithiol o ran gwella mynediad at sgrinio llygaid, a chymryd camau i leihau amseroedd aros am driniaethau dilynol i'r rhai sydd â chyflyrau llygaid sy'n gysylltiedig â diabetes



**11** Argymhelliad 11: Sicrhau cyllid parhaus ar gyfer yr offeryn DEIW i helpu i wella gofal i bobl sy’n byw gyda diabetes mewn cartrefi gofal.

**12** Argymhelliad 12: Gweithredu’r argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad Dr Rose Stewart a’r Canllawiau ar Gydnabod T1DE i sicrhau bod gofal seicolegol yn integredig, yn hygyrch ac yn hyblyg, gan ddiwallu anghenion pobl sy’n byw gyda diabetes ar bob cam o’u hoes a gwella canlyniadau iechyd cyffredinol.




**13** Argymhelliad 13: Parhau i ariannu, ac ehangu, Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan i leihau lefelau diabetes math 2 yng Nghymru.

**14** Argymhelliad 14: Ariannu rhaglenni a mentrau i leihau lefelau gordewdra yng Nghymru o dan Pwysau Iach Cymru Iach.

**15** Argymhelliad 15: Rhoi Gwasanaeth Lleddfu Diabetes Cymru Gyfan ar waith i helpu i gynyddu’r cyfraddau lleddfu diabetes math 2 yng Nghymru.

**16** Argymhelliad 16: Sicrhau mynediad cyfartal at dechnoleg diabetes yng Nghymru ar gyfer diabetes math 1 a math 2.

**17** Argymhelliad 17: Adolygu systemau technoleg gwybodaeth gofal sylfaenol ac eilaidd i gefnogi’r defnydd cynyddol o dechnoleg diabetes.



**18** Argymhelliad 18: Sicrhau cynaliadwyedd rhaglenni addysg fel SEREN yn y dyfodol ar gyfer pobl a theuluoedd sy’n byw gyda diabetes yng Nghymru.




**19** Argymhelliad 19: Adolygu gweithrediad presennol Deddf Tribiwnlysoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 a’i heffaith ar addysg i blant sy’n byw gyda diabetes math 1.

**20** Argymhelliad 20: Ymrwymo i barhau I ariannu cydlynydd ar gyfer rhaglen addysg SEREN i alluogi’r rhaglen i barhau.